

| | |
|--------------------------------|--|
| Adroddiad i'r | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad yr adroddiad | 1 Gorffennaf 2021 |
| Aelod Arweiniol/Swyddog | Julian Thompson-Hill /Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo |
| Awdur yr Adroddiad | Pennaeth Cyllid ac Eiddo |
| Teitl | Ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r Coronafeirws: Seilwaith – Adeiladau'r Cyngor |

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Er mwyn diweddarau'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y thema adfer Seilwaith – Adeiladau'r Cyngor fel y nodir yn yr adroddiad 'Ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r Coronafeirws: Cynllunio ar gyfer Adfer' y cytunwyd arno gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet. Mae hwn yn adroddiad dilynol i'r diweddariad dechreuol a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 3 Medi.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I amlinellu'r cynnydd ynghylch:

- Trefniadau Gweithio Adeiladau Swyddfa
- Diweddariad Cynnal a Chadw Adeiladau.

2.2 Galluogi Aelodau i gyflawni eu rôl craffu drwy archwilio'r materion hyn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Trafod cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Nid yw'r papur yn cynnwys Ysgolion na'r Stoc Dai yn fanwl, gan fod y rhain yn dod o dan themâu adferiad ar wahân. Er y crybwyllir isod yn gryno, mae'r rhaglen Ffyrdd Newydd o Weithio yn raglen eang a arweinir gan Alan Smith ac nid yw'n rhan o'r themâu adferiad dechreuol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf isod yn dangos ein bod mewn sefyllfa dda wrth fynd ymlaen ac yn gallu addasu i'r sefyllfa lleol a chenedlaethol sy'n newid.

Dylid nodi bod y Tîm Rheoli Cyfleusterau wedi trosglwyddo o'r Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd i Wasanaeth Cyllid ac Eiddo, a dylai hyn wella gweithio'n effeithlon wrth fynd ymlaen a helpu gyda darpariaeth y prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio, a grybwyllir yn gryno isod.

4.2 Trefniadau Gweithio Adeiladau Swyddfa – ailadrodd y canllawiau cyfredol

Mae Atodiad 1 yn adroddiad a ddatblygwyd gan Tom Booty mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Parhad Busnes. Mae'n manylu ar:

- Y swyddfeydd y mae'r canllaw yn eu trafod (er mae'r canllaw yn cynnwys ffynhonnell dda o gyngor ar gyfer eiddo arall hefyd)
- Cyngor ac Egwyddorion Cyffredinol, gan gynnwys cyngor ynghylch staff yn dangos symptomau
- Mesurau atal heintiau sylfaenol
- Canllawiau gwaith manwl

4.3 Iechyd a diogelwch

Mae sampl / templed Asesiad Risg wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cael ei gynnwys fel **Atodiad 2**. Fodd bynnag, mae angen pwysleisio nad yw cynnwys y templed yn gyflawn, a gellir ei ddefnyddio i helpu llunio asesiad risg sy'n berthnasol i bob Gwasanaeth, Tîm a/neu weithgaredd. Mae angen i bob gwasanaeth ymgymryd â'u hasesiad risg eu hunain mewn perthynas â gweithgareddau gwaith eu staff i atal neu leihau unrhyw risg posib o fod yn agored i'r Coronafeirws.

Mae'n bwysig nodi bod Iechyd a Diogelwch yn **ddyletswydd statudol** ac mae angen ei gymryd o ddifrif er budd iechyd ein staff a'n preswylwyr i gyd.

4.4 Datganiad Sefyllfa Diweddaraf

Y safbwynt presennol ar ddychwelyd i'r gwaith yn Sir Ddinbych yw ein bod yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, ac os all staff weithio o gartref dylent barhau i wneud hynny. Er fod cyfraddau wedi gostwng yn sylweddol, mae'r coronafeirws yn dal i fod yn bresennol yn ein cymunedau ac mae'r risg o haint yn parhau, ac roedd pryder penodol am rai o'r amrywolion newydd fel y dangoswyd mewn digwyddiadau diweddar. Mae gweithio o adref yn hytrach nac amgylchedd swyddfa cymunedol, yn lleihau'r risg o haint.

Mae darpariaeth bresennol ar gyfer staff i fynychu swyddfeydd mewn amgylchiadau lle bo angen busnes anorfod, neu ar gyfer materion lles. Yn yr achosion hyn, mae angen cymeradwyaeth gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, ac unwaith ceir cymeradwyaeth dylai'r unigolyn sy'n mynychu'r swyddfa hysbysu'r Tîm Cyfleusterau pryd a ble maent yn mynychu drwy gysylltu â'r Tîm Uned Rheoli Cyfleusterau. Dylai staff sy'n mynychu'r swyddfa lynu at ganllawiau a sicrhau eu bod yn mewngofnodi ac allgofnodi o'r swyddfa yn y llyfrau cofnodi yn y mynedfeydd.

Pan fydd canllawiau LIC yn newid, yn y tymor canolig rydym yn bwriadu rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer system rota i fynychu'r swyddfa, felly pan fydd LIC yn llacio eu neges gweithio o gartref, rydym yn barod ac yn gallu rheoli presenoldeb. Y system cytunedig yw y bydd yr holl Benaethiaid Gwasanaeth/Rheolwyr Canol yn trefnu pa staff all fynychu'r swyddfa ac ar ba ddiwrnodau, er enghraifft, gall un tîm fynychu ar ddyddiau Llun a Mercher, a thîm arall ar ddyddiau Mawrth a Iau. Dylai hyn sicrhau na fydd mwy na 50% o staff yn mynychu ar un adeg a chaniatáu cadw pellter cymdeithasol. Bydd ffurflen i holl Benaethiaid Gwasanaeth/Rheolwr Canol eu cwblhau yn cael eu rhannu yn fuan er mwyn gallu rhoi'r amserlen yn ei le.

Mae'r Gwasanaeth yn rhan o dair agwedd o'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio, sef rhaglen a arweinir gan Alan Smith.

- Cyllid – sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyllido'n ddigonol gan sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd
- Asedau Strategol – alinio'r blaenoriaethau corfforaethol sy'n codi dros y 5 mlynedd nesaf, gan gynnwys:
 - Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol
 - Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)

- Ffyrdd Newydd o Weithio
- Adfywio

O safbwynt Dylunio Gweithle a Rheoli Cyfleusterau (sydd o dan Cyllid ac Eiddo), disgwylir bod y presenoldeb ar ôl COVID yn y swyddfa yn llawer llai na'r lefelau cyn COVID, gyda rhwng 20% i 40% o saff yn mynychu'r gweithle ar un diwrnod gwaith. Yn ogystal â hynny, bydd y rhesymau pam fod pobl yn mynychu'r gweithle yn fwy tebygol o gael ei annog gyda'r angen i gwrdd a chydweithio gydag eraill, yn hytrach na chyflawni gweithrediadau dydd i ddydd a ellir ei gyflawni adref. O safbwynt eiddo, mae gan y newidiadau hyn oblygiadau, sy' golygu ein bod angen ailystyried yr hyn rydym yn ei ddarparu o ran gofod swyddfa.

4.5 Seilwaith Adeiladau

Cynnal a Chadw Adeiladau (Corfforaethol)

Cynhaliwyd busnes fel arfer trwy gydol y Pandemig a'r cyfnodau clo. Lleihawyd atgyweiriadau adweithiol o ganlyniad i leihad yn nefnydd yr adeiladau, a alluogodd mwy o ffocws ar brosiectau cynnal a chadw cyfalaf mwy a gynlluniwyd. Effeithiwyd ar argaeledd contractwyr a deunyddiau am gyfnod byr i ddechrau, tra bod mesurau addas yn cael eu rhoi mewn lle yn dilyn asesiadau risg a chadarnhad o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Dylunio ac Adeiladu

Cynhaliwyd busnes fel arfer trwy gydol y Pandemig a'r cyfnodau clo. Bychan iawn oedd yr ymyrraeth dechreuol gan fod opsiynau gweithio o bell eisoes wedi'u sefydlu o fewn y tîm. Profwyd mân ymyraethau yn fuan ar ôl yr ansicrwydd dechreuol o ran effaith anhysbys y pandemig a'r mesurau, ac er fod arferion gweithio o bell eisoes wedi eu sefydlu yn y sector preifat a mesurau priodol wedi'u datblygu ar gyfer gweithio'n ddiogel ar safleoedd adeiladu. Yn ffodus, roedd gweithgarwch ar y safle ar ddechrau'r pandemig yn eithaf isel, gyda mwyafrif o'r cynlluniau ar y camau dylunio/tendro.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Bydd galluogi staff i ymgymryd â'u rolau yn effeithlon ac yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y Blaenoriaethau Corfforaethol yn gallu parhau i gael eu darparu a'u cyflawni.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae'r costau tymor byr wedi cynnwys prynu arwyddion ac eitemau Cyfarpar Diogelu Personol megis hylif diheintio dwylo. Roedd posibl hawlio'r rhan fwyaf o gostau cychwynnol o Gronfa Galedi Covid 19 Awdurdod Lleol LIC. Nid oes gwaith mawr wedi bod y angenrheidiol hyd yma.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Teimlid nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad gyda'r Aelod Arweiniol, Uwch Dîm Arwain, Cabinet Anffurfiol ac Undebau Llafur yn ystod Mai 2020. Cabinet Anffurfiol (Mehffin 2020). Mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu darparu i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arwain yn ystod y flwyddyn yn ôl y gofyn. Bydd trafodaethau ac ymgynghoriad pellach yn cael eu cynnal pan fydd canllawiau newydd eu hangen.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u nodi yn Adran 6.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Gall y risgiau o beidio cael hyn yn iawn gael effaith enfawr ar iechyd a lles staff ac ymwelwyr. Mae risgiau penodol wedi'u manylu yn yr atodiadau a bydd asesiadau risg penodol ar gyfer pob maes gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau sy'n benodol i'r gwasanaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 Cyfansoddiad y Cyngor.